

Cynllun Busnes 2016-19 Lefel 1

Rheolaeth Fersiwn

Dogfen fyw yw hon a chaiff ei newid yn ôl y galw i fodloni ein blaenoriaethau.

Fersiwn y ddogfen	Dyddiad	Nodiadau
1.0	22/09/16	Cymeradwyaeth y Cydbwyllgor

Enw'r Tim:	GwE
Aelodau'r Tim:	Bwrdd Rheoli
Blaenoriaethau rydym yn cyflawni:	<p>Blaenoriaethau Rhanbarthol:</p> <p>B1: Codi safonau dysgu ac addysgu i bob dysgwr ar draws y rhanbarth.</p> <p>B2: Gwella ansawdd arweinyddiaeth a'i effaith ar wella deilliannau ar draws y rhanbarth.</p> <p>B3: Datblygu system ysgol sy'n hunan-wella</p> <p>B4: Gwella gweithdrefnau mewnol er mwyn sicrhau gwasanaeth cefnogi a herio effeithiol a chyson ar draws y rhanbarth</p> <p>B5: Sicrhau bod llywodraethu, arweinyddiaeth a rheolaeth GwE yn effeithiol</p> <p>Argymhellion Estyn:</p> <p>A1: Sicrhau bod y gwasanaeth gwella ysgolion yn gwneud defnydd mwy effeithiol o weithdrefnau data, gosod targedau a thracio er mwyn herio a chefnogi ysgolion i wella perfformiad holl ddysgwyr ar draws ysgolion ac awdurdodau lleol, yn arbennig yng nghyfnod allweddol 4.</p> <p>A2: Gwella ansawdd arfarnu wrth ddarparu gwasanaethau gwella ysgolion.</p> <p>A3: Gwella trylwyredd trefniadau ar gyfer adnabod a rheoli risg.</p> <p>A4: Sicrhau bod cynlluniau busnes a chynlluniau gweithredol yn cynnwys meini prawf llwyddiant clir ac y caiff cynnydd yn erbyn y rhain ei fonitro'n effeithiol.</p> <p>A5: Egluro rôl strategol y rhwydweithiau rhanbarthol a'u hatebolrwydd i'r Cyd-bwyllgor.</p> <p>A6: Datblygu fframwaith priodol er mwyn asesu gwerth am arian; sicrhau bod cynllun cyllidol tymor canolig yn cyd-fynd â'r cynllun busnes, a bod ffrydiau gwaith wedi eu prisio'n llawn.</p>

GWELEDIGAETH

Ein gweledigaeth yw datblygu cyfundrefn addysg o'r radd flaenaf ble gall pob disgybl yn y rhanbarth elwa ar addysgu sy'n gyson safonol ym mhob dosbarth a ble mae pob ysgol, waeth beth eu lleoliad daearyddol, yn cael ei harwain gan arweinwyr rhagorol.

PWRPAS

GwE yw Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Gogledd Cymru sydd yn gweithio yn gwbl ddwyieithog ochr yn ochr â ac ar ran Awdurdodau Lleol Conwy, Dinbych, Fflint, Gwynedd, Wrecsam ac Ynys Môn i ddatblygu ysgolion rhagorol ar hyd a lled y rhanbarth a gwella deilliannau i ddisgyblion drwy sicrhau arweinyddiaeth effeithiol ar bob lefel, a dysgu ac addysgu o safon ym mhob dosbarth.

NODAU AC AMCANION GwE

Nod sylfaenol GwE yw, trwy herio yn bwrpasol a chefnogol, datblygu cyfundrefn sydd yn hunan-wella ac yn dangos ffydd yn ein hysgolion a'u harweinwyr ar bob lefel i'n tywys ar hyd y daith honno. Ar ei orau, mae cydweithio agos rhwng ysgolion yn broses hynod heriol ac yn ein harwain at sylweddoli efallai nad ydy'r hyn yr oeddem ni yn ei ystyried yn arfer ragorol yn rhagorol wedi'r cyfan. Gwaith ysgolion yw gwella eu hunain er lles y dysgwyr yn eu gofal; tasg GwE yw sicrhau bod hynny'n digwydd.

Cynllun Busnes 2016-19 GWE

Lefel 1

Cyf.	Blaenoriaethau	Gweithredu	Allgynnyrch a meini prawf llwyddiant	Yn gyfrifol	Dyddiad Targed	Ffynhonnell cyllid
B1	Codi safonau dysgu ac addysgu i bob dysgwyr ar draws y rhanbarth.	Sicrhau bod Rhaglen Herio a Chefnogi a Rhaglen Ddatblygu GWE yn effeithiol wrth godi safonau ar draws y rhanbarth.	Lleihad yn y nifer o ysgolion yng Nghategoriâu Statudol Estyn.	Cyfarwyddwyr Cynorthwyo Bwrdd Rheoli	Haf 2017 Haf 2018 Haf 2019	Cyllideb graidd GGA Grantiau LIC
A1	Sicrhau bod y gwasanaeth gwella ysgolion yn gwneud defnydd mwy effeithiol o weithdrefnau data, gosod targedau a thracio er mwyn herio a chefnogi ysgolion i wella perfformiad holl ddysgwyr ar draws ysgolion ac awdurdodau lleol, yn arbennig yng nghyfnod allweddol 4.	Sicrhau bod Rhaglen Herio a Chefnogi a Rhaglen Ddatblygu GWE yn effeithiol wrth godi safonau ar draws y rhanbarth. Lleihau'r gwahaniaeth rhwng perfformiadau awdurdodau lleol yn y dangosyddion perfformiad allweddol. Sicrhau linellau atebolrwydd clir ar gyfer safonau a pherfformiad ysgolion i'r gwasanaeth ar y cyd a ddarperir gan yr Awdurdodau Lleol a GWE Sicrhau y gweithredir gweithdrefnau ymyrraeth statudol effeithiol yn gyson ar draws y rhanbarth. Gwella'r defnydd o ddata, gosod targedau a thracio disgyblion yn y CS, CA2, CA3 a CA4. Sicrhau nad oes unrhyw ysgol yn y rhanbarth yn cael ei gosod yng nghategoriâu statudol Estyn, a bod yr holl ysgolion sydd mewn categori statudol ar hyn o bryd yn gwneud y gwelliannau sydd eu hangen. Gwella safonau yn CA4. Gwella safonau yn y Cyfnod Sylfaen (CS). Gwella safonau CA2 a CA3 ymhellach gan sicrhau asesiadau athrawon mwy cywir. Gwella sgiliau llythrennedd a rhifedd dysgwyr	Dim un ysgol i gael ei gosod yn annisgwyl mewn Categori Statudol gan Estyn o fis Medi 2016. Lleihad yn y nifer o ysgolion sy'n cael eu gosod yng nghategori Monitro gan Estyn. Lleihad yn y nifer o ysgolion uwchradd a chynradd yn y categorïau cefnogaeth melyngoch a choch. Cynnydd yn y nifer o ysgolion uwchradd a chynradd yn y categori cefnogaeth melyn, ac yn arbennig yn y categori gwyrdd. Pob awdurdod yn perfformio yn unol â neu uwchlaw meincnod disgwyliedig Llywodraeth Cymru a'u safle PYD yn y dangosyddion perfformiad allweddol ar draws pob cyfnod allweddol (gweler targedau yng nghynlluniau unigol ALI). Lleihad yn y nifer o ysgolion sy'n perfformio islaw canolbwynt y meincnodau PYD yn y dangosyddion perfformiad allweddol ym mhob cyfnod allweddol. Lleihad yn y nifer o ysgolion sy'n perfformio yn chwartel isaf y meincnodau PYD mewn Saesneg a mathemateg yn CA4. Gwelliant ym mherfformiad dysgwyr PYD yn y dangosyddion perfformiad allweddol ym mhob			

Cyf.	Blaenoriaethau	Gweithredu	Allgynnyrch a meini prawf llwyddiant	Yn gyfrifol	Dyddiad Targed	Ffynhonnell cyllid
	<p>ym mhob cyfnod allweddol.</p> <p>Gwella perfformiad disgyblion sy'n agored i niwedd yn y dangosyddion perfformiad allweddol ym mhob cyfnod allweddol.</p> <p>Gwella perfformiad dysgwyr Mwy Abl a Thalentog (MATH) ym mhob cyfnod allweddol.</p> <p>Cau'r bwllch rhwng perfformiad bechgyn/merched yn y dangosyddion perfformiad allweddol ym mhob cyfnod allweddol.</p> <p>Gwella safonau drwy ddatblygu ansawdd yr arweinyddiaeth ymhellach.</p> <p>Gwella sgiliau cymhwysedd digidol dysgwyr ar draws y rhanbarth.</p>	<p>ym mhob cyfnod allweddol.</p> <p>Gwella perfformiad disgyblion sy'n agored i niwedd yn y dangosyddion perfformiad allweddol ym mhob cyfnod allweddol.</p> <p>Gwella perfformiad dysgwyr Mwy Abl a Thalentog (MATH) ym mhob cyfnod allweddol.</p> <p>Cau'r bwllch rhwng perfformiad bechgyn/merched yn y dangosyddion perfformiad allweddol ym mhob cyfnod allweddol.</p> <p>Gwella safonau drwy ddatblygu ansawdd yr arweinyddiaeth ymhellach.</p> <p>Gwella sgiliau cymhwysedd digidol dysgwyr ar draws y rhanbarth.</p>	<p>cyfnod allweddol.</p> <p>Gwelliant ym mherfformiad dangosydd L2+, sydd yn cyd-fynd â neu uwchlaw'r cynnydd cenedlaethol.</p> <p>Cynnydd yng nghyfran y disgyblion sy'n cyflawni 5 gradd A*-A TGAU neu gyfwerth.</p> <p>Lleihad yn y cyfnewidioldeb ar draws awdurdodau lleol ym mherfformiad bechgyn a merched mewn Saesneg a mathemateg.</p> <p>Cynnydd yng nghanran y dysgwyr sy'n cyflawni Dangosydd y Cyfnod Sylfaen.</p> <p>Cynnydd yng nghanran y dysgwyr sy'n cyflawni'r deilliannau uwch yn y Cyfnod Sylfaen.</p> <p>Cynnydd yng nghanran y dysgwyr sy'n cyflawni'r Dangosydd Pynciau Craidd yn CA2.</p> <p>Cynnydd yng nghanran y dysgwyr sy'n cyflawni'r lefelau uwch yn CA2 a CA3.</p>			
B2	<p>Gwella ansawdd arweinyddiaeth a'i effaith ar wella deilliannau ar draws y rhanbarth.</p>	<p>Sicrhau bod gan GwE raglen datblygu arweinyddiaeth effeithiol er mwyn gwella ansawdd arweinyddiaeth ar bob lefel ar draws y rhanbarth.</p> <p>Sicrhau bod Rhaglen Ddatblygu GwE yn effeithiol wrth godi safonau ar draws y rhanbarth.</p> <p>Cyflwyno 'Rhaglen Datblygu Cynorthwyyr Addysgu Lefel Uwch'.</p>	<p>Mae gan bob ymarferydd ysgol, ar bob lefel ar draws rhanbarth GwE, y sgiliau perthnasol i arwain yn effeithiol.</p> <p>Mae arweinyddiaeth effeithiol ar bob lefel mewn ysgolion yn cael effaith gadarnhaol ar safonau ar draws y rhanbarth.</p> <p>Mae meddylfryd o arweinyddiaeth ddostranedig wedi'i wreiddio ym mhob ysgol ar draws y rhanbarth er mwyn cryfhau'r gallu i ymyrryd yn</p>	<p>Cyfarwyddwyr Cynorthwyyol UYHCh</p>	<p>Arfarnu yn ystod: Haf 2017 Haf 2018 Haf 2019</p>	<p>Cyllideb graidd GGA Grantiau LIC Cost mynychu fel y bo'n briodol</p>

Cyf.	Blaenoriaethau	Gweithredu	Allgynnyrch a meini prawf llwyddiant	Yn gyfrifol	Dyddiad Targed	Ffynhonnell cyllid
		<p>Cyflwyno 'Rhaglen Datblygu Athrawon Newydd Gymhwysa' effeithiol ar draws rhanbarth GwE.</p> <p>Cyflwyno 'Arwain ar Lythrennedd a Rhifedd', rhaglen ddatblygu ar gyfer arweinywyr Llythrennedd a Rhifedd.</p> <p>Cyflwyno 'Datblygu Arweinywyr y Dyfodol', rhaglen ar gyfer penaethiaid cynradd ac uwchradd i ddylanwadu arferion y rheiny sy'n cyflawni'r rôl am y tro cyntaf, neu sydd â'r potensial i arwain.</p> <p>Cyflwyno 'Raglen Datblygu Darpar Arweinywyr'.</p> <p>Cyflwyno 'Raglen Gefnogaeth i Arweinywyr Canol', rhaglen tri diwrnod i wella effeithiolrwydd arweinywyr canol.</p> <p>Cyflwyno Rhaglen Datblygu Arweinywyr Canol 'O Dda i Ragorol', rhaglen ddatblygu saith diwrnod i alluogi arweinywyr canol effeithiol i ddod yn arweinywyr rhagorol.</p> <p>Cyflwyno rhaglenni arweinyddiaeth ganol sydd wedi'u teilwra'n benodol ar gyfer 'Raglenni Lythrennedd Corfforol i Ysgolion (PLPS), 'TGCh', a'r sector Ysgolion Arbennig.</p>	<p>gadarn a chyflym yn yr ysgolion sy'n achosi'r mwyaf o bryder.</p> <p>Mae gan bob ymarferydd ym mhob ysgol ar draws rhanbarth GwE yr hawl i ddatblygiad arweinyddiaeth perthnasol ac effeithiol.</p> <p>Mae'r amcanion a nodir yn Cymwys am Oes yn cael eu diwallu'n llawn ar gyfer pob dysgwr ym mhob lleoliad.</p>			

Cyf.	Blaenoriaethau	Gweithredu	Allgynnyrch a meini prawf llwyddiant	Yn gyfrifol	Dyddiad Targed	Ffynhonnell cyllid
		<p>Cyflwyno 'Rhaglen Datblygu Uwch Arweinwyr' [Diploma Lefel 5], rhaglen naw mis sy'n addas ar gyfer rheiny sy'n aelodau o UDA neu sy'n anelu tuag at ddyrchafiad buan.</p> <p>Cyflwyno 'Rhaglen Datblygu Darpar Benaethiaid'.</p> <p>Cyflwyno rhaglen genedlaethol CPCP.</p> <p>Cyflwyno 'Rhaglen Datblygu Penaethiaid Newydd', sy'n rhychwantu 3 blynedd cyntaf Pennaeth newydd/ Pennaeth mewn Gofal.</p> <p>Cyflwyno 'Raglen Datblygu Penaethiaid' ar gyfer grŵp targed o Benaethiaid i'w galluogi i symud ymlaen i'r cam nesaf yn eu gyrfa.</p> <p>Datblygu 'Raglen Datblygu Penaethiaid Gweithredol' i'w chyflwyno o fis Medi 2017.</p>				
B3	Datblygu system ysgol sy'n hunan-wella	<p>Arweinwyr ysgol yn ymwneud fwyfwy â'r broses o ffurfio a chydlynu strategaethau i hyrwyddo system sy'n hunan-wella.</p> <p>Model o weithio wedi'i sefydlu ar draws y rhanbarth sy'n adeiladu'r capasiti o fewn ein hysgolion i symud tuag at system ysgol gynaliadwy sy'n hunan-wella.</p> <p>Gwasanaeth mwy effeithiol sy'n gwneud llawn ddefnydd o'i Ymgynghorwyr Her o fewn y tîm craidd, ac sy'n cynnig lefel uchel o her a</p>	<p>Gwell perfformiad yn y prif ddangosyddion yn yr holl gyfnodau allweddol, gan gynnwys disgyblion PYD a'r rhai hynny o gefndiroedd economaidd difreintiedig.</p> <p>Gwell perfformiad yn y Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol.</p> <p>Lleihad yn nifer yr ysgolion sy'n cael eu gosod mewn categorïau statudol gan Estyn.</p>	Rheolwr Gyfarwyddwr	Haf 2017 Haf 2017 Haf 2017	Grant Adeiladu Capasiti HVC

Cyf.	Blaenoriaethau	Gweithredu	Allgynnyrch a meini prawf llwyddiant	Yn gyfrifol	Dyddiad Targed	Ffynhonnell cyllid
		<p>chefnogaeth i ysgolion.</p> <p>Diwylliant cynaliadwy o gyd-herio a chyd-gefnogi wedi'i wreiddio ar draws y rhanbarth.</p> <p>System ysgol sy'n hunan-wella gynaliadwy wedi'i wreiddio ar draws y rhanbarth.</p>	<p>Cynnydd yn nifer yr ysgolion yn y categorïau gwyrdd a melyn ar draws y rhanbarth.</p> <p>Mwy o gapasiti gan GwE i gynnig cefnogaeth ddwysach i ysgolion melyngoch a choch.</p> <p>Lefel uchel o hyder yn ansawdd y gwasanaeth ymysg holl randdeiliaid allweddol.</p>		<p>Haf 2017</p> <p>Haf 2017 ac yn flynyddol o hynny ymlaen</p> <p>Haf 2018</p>	
B4	<p>Gwella gweithdrefnau mewnol er mwyn sicrhau gwasanaeth cefnogi a herio effeithiol a chyson ar draws y rhanbarth</p>	<p>Sicrhau llinellau atebolrwydd clir ar gyfer safonau a pherfformiad ysgolion i'r gwasanaeth ar y cyd a ddarperir gan yr Awdurdodau Lleol a GwE.</p> <p>Sicrhau y gweithredir gweithdrefnau ymyrraeth statudol effeithiol yn gyson ar draws y rhanbarth.</p> <p>Sicrhau bod Rhaglen Herio a Chefnogi GwE a Rhaglen Ddatblygu GwE yn effeithiol wrth godi safonau ar draws y rhanbarth.</p> <p>Sicrhau y defnyddir data yn effeithiol ac yn briodol er mwyn arfarnu rhaglenni a phrosiectau i gefnogi gwelliant ysgolion.</p> <p>Sicrhau gwell cysondeb ar draws yr hybiau yn ansawdd arfarniadau Ymgynghorwyr Her o'u hysgolion, yn arbennig mewn perthynas ag addysgu ac arweinyddiaeth.</p> <p>Gwella ansawdd yr her a'r gefnogaeth a gynigir i ysgolion gan Ymgynghorwyr Her, a thrwy hyn sicrhau gwell cysondeb o ran ansawdd ac effaith ar draws yr hybiau.</p>	<p>Lleihad yn y nifer o ysgolion yng Nghategoriâu Statudol Estyn.</p> <p>Dim un ysgol i gael ei gosod yn annisgwyl mewn Categori Statudol gan Estyn o fis Medi 2016.</p> <p>Lleihad yn y nifer o ysgolion sy'n cael eu gosod mewn categori Monitro gan Estyn.</p> <p>Lleihad yn y nifer o ysgolion uwchradd a chynradd yn y categorïau cefnogaeth melyngoch a choch.</p> <p>Cynnydd yn y nifer o ysgolion uwchradd a chynradd yn y categori cefnogaeth melyn, ac yn arbennig yn y categori gwyrdd.</p> <p>Gweithdrefnau sicrhau ansawdd ac atebolrwydd mewnol cadarn ar waith sy'n arwain at lefel uwch o gysondeb o fewn ac ar draws yr hybiau.</p> <p>Gweithredir gweithdrefnau Rheoli Perfformiad cadarn ar gyfer Ymgynghorwyr Her yn gyson gan arwain at well her a chefnogaeth ar gyfer ysgolion.</p> <p>Gweithdrefnau cadarn ar waith ar gyfer cymedrolï</p>	<p>UYHC</p> <p>Cyfarwyddwyr</p> <p>Cynorthwyl</p> <p>Bwrdd Rheoli</p>	<p>Haf 2017</p>	<p>Cyllideb graidd</p> <p>GGA</p> <p>Grantiau LIC</p>

Cyf.	Blaenoriaethau	Gweithredu	Allgynnyrch a meini prawf llwyddiant	Yn gyfrifol	Dyddiad Targed	Ffynhonnell cyllid
		<p>Adolygu'r strategaeth recriwtio er mwyn sicrhau y gall y gwasanaeth rhanbarthol ddenu ymarferwyr uwchradd effeithiol ac o ansawdd uchel i rolau allweddol.</p> <p>Sicrhau bod gan bob ysgol uwchradd fynediad i gefnogaeth bynciol mewn mathemateg, Saesneg, Cymraeg Iaith Gyntaf a gwyddoniaeth yng nghyfnod allweddol 4.</p>	<p>catoreiddio'n rhanbarthol.</p> <p>Gwneir defnydd effeithiol o uwch arweinwyr ar secondiad o ysgolion fel Ymgynghorwyr Her.</p> <p>Rhaglenni datblygu rhanbarthol ar gyfer uwchsgilio Ymgynghorwyr Her a phenaethiaid ar secondiad yn cael eu cyflwyno a'u harfarnu'n effeithiol.</p> <p>Defnyddir data perfformiad yn effeithiol ac yn briodol i arfarnu rhaglenni a phrosiectau ar gyfer cefnogi gwelliant ysgol.</p> <p>Mae GwE yn denu ymarferwyr uwchradd effeithiol ac o ansawdd uchel i rolau allweddol.</p> <p>Gwell her a chefnogaeth ar gyfer pynciau craidd yn CA4 ar draws y rhanbarth.</p>			
B5 A2 A3 A4 A5 A6	Sicrhau bod llywodraethu, arweinyddiaeth a rheolaeth GwE yn effeithiol	<p>Gwella ansawdd arfarnu wrth ddarparu gwasanaethau gwella ysgolion.</p> <p>Gwella trylwyredd trefniadau ar gyfer adnabod a rheoli risg.</p> <p>Sicrhau bod cynlluniau busnes a chynlluniau gweithredol yn cynnwys meini prawf llwyddiant clir ac y caiff cynnydd yn erbyn y rhain ei fonitro'n effeithiol.</p> <p>Egluro rôl strategol y rhwydweithiau rhanbarthol a'u hatebolirwydd i'r Cyd-bwyllgor.</p>	<p>Fframwaith arfarnu yn ei le ar gyfer holl agweddau ar waith GwE sy'n defnyddio Dull Pedwar Piler New <i>Philanthropy</i> ar y cyd â Phrifysgol Bangor.</p> <p>Cofrestr Risg yn ei lle a gaiff ei diweddarau ac a adroddir arni'n gyson.</p> <p>Y broses Cynllunio Busnes newydd wedi ei datblygu a'i gweithredu i gynnwys y costau'n llawn.</p> <p>Rôl y rhwydweithiau rhanbarthol wedi ei adolygu a'u hatebolirwydd i'r Cyd-bwyllgor wedi'i ddiffinio.</p>	<p>Rheolwr Gyfarwyddwr</p> <p>Rheolwr Busnes a Chyllid</p> <p>Rheolwr Busnes a Chyllid</p> <p>Bwrdd Rheoli</p>	<p>Yn weithredol o fis Medi 2016</p> <p>Haf 2016</p> <p>Medi 2016</p> <p>Haf 2016</p>	<p>Interniaeth ymchwil PhD YSEC £3,500 cyllid craidd</p>

Cyf.	Blaenoriaethau	Gweithredu	Allgynnyrch a meini prawf llwyddiant	Yn gyfrifol	Dyddiad Targed	Ffynhonnell cyllid
		Datblygu fframwaith priodol er mwyn asesu gwerth am arian; sicrhau bod cynllun cyllidol tymor canolog yn cyd-fynd â'r cynllun busnes, a bod ffrydiau gwaith wedi eu prasio'n llawn.	Fframwaith gwerth am arian wedi'i ddatblygu a'r cynllun cyllidol tymor canolog wedi'i baratoi.	Rheolwr Busnes a Chyllid	Hydref 2016	
B6	Cyflawni mentrau perthnasol Llywodraeth Cymru ar draws y rhanbarth	<p>Mynd i'r afael â'r argymhellion a nodir yn 'Dyfodol Llwyddiannus'.</p> <p>Datblygu arweinyddiaeth ar bob lefel. (CALU, ANG, Llwybr Datblygu Gyrfa.)</p> <p>TGAU:</p> <p>Cefnogaeth i ysgolion weithredu'r manylebau TGAU diwygiedig a Chymhwyster diwygiedig Bagloriaeth Cymru yn llwyddiannus.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cefnogaeth 'weddilliol' a pharhaus ar gyfer y manylebau TGAU Cymraeg, Saesneg a mathemateg diwygiedig a gyflwynwyd ym Medi 2015, a gwyddoniaeth a gyflwynwyd ym Medi 2016. • Cefnogaeth i ysgolion weithredu'r manylebau TGAU diwygiedig mewn ITM, Daearyddiaeth, Celf, Cerdd, Drama, Bwyd a Maeth ac Addysg Gorrforol a gyflwynwyd ym mis Medi 2016. • Cefnogaeth i ysgolion weithredu'r manylebau TGAU diwygiedig mewn Addysg Grefyddol, Hanes, Technoleg a Chymraeg Ail Iaith a gyflwynir ym mis Medi 2017. 	<p>Cyflawni'r Pedwar Pwrpas.</p> <p>Holl ymarferwyr ysgol, ar bob lefel ar draws rhanbarth GwE, yn meddu ar y sgiliau arweinyddiaeth effeithiol perthnasol.</p> <p>Arweinyddiaeth effeithiol ar bob lefel mewn ysgolion wedi cael effaith gadarnhaol ar safonau ar draws y rhanbarth.</p> <p>Pob ysgol wedi derbyn hyfforddiant a chefnogaeth briodol i weithredu'r manylebau TGAU diwygiedig a'r Cymhwyster Bagloriaeth Cymru.</p> <p>Cynlluniau gwaith CA4 diwygiedig ar gyfer pob pwnc sy'n ymateb i'r manylebau TGAU diwygiedig.</p> <p>Cynlluniau gwaith a dulliau addysgu CA3 wedi'u diwygio mewn ymateb i agenda PISA er mwyn sicrhau bod pob disgybl wedi'u paratoi yn briodol ar gyfer CA4.</p> <p>Mwy o hyder wrth ddarparu Addysgu a Dysgu o ansawdd mewn ysgolion.</p>	Cyfarwyddwyr Cynorthwyo UYHaCh	Arfarnu: Haf 2017 Haf 2018 Haf 2019	Cyllid grant LIC
				UYHaCh	Haf 2017 Haf 2018 Haf 2019	Grant LIC Grant CC

Cyf.	Blaenoriaethau	Gweithredu	Allgynnyrch a meini prawf llwyddiant	Yn gyfrifol	Dyddiad Targed	Ffynhonnell cyllid
		<ul style="list-style-type: none"> Cefnogaeth barhaus ar gyfer Cymhwyster diwygiedig Bagloriaeth Cymru a gyflwynwyd ym mis Medi 2015. <p>HYC: Cefnogi Rhaglen Her Ysgolion Cymru (HYC) drwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> gefnogi'r pum ysgol o fewn y rhanbarth sy'n rhan o Raglen HYC ddatblygu System Ysgol sy'n Hunan-wella ar draws y rhanbarth <p>Dyfodol Byd-eang: Gweithredu'r weledigaeth a'r nodau a amlinellir yn 'Dyfodol Byd-eang' drwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> hyrwyddo a chodi proffil ieithoedd tramor modern meithrin capasiti a chefnogi'r gweithlu addysg i gyflwyno ieithoedd tramor modern yn effeithiol gweithio tuag at y strategaeth 'dwyieithog +1' 	<p>Gwell perfformiad yn y pum ysgol. Gwell arweinyddiaeth ar bob lefel yn y pum ysgol.</p> <p>Mwy o gapasiti yn y pum ysgol yn ogystal ag etifeddiaeth sy'n sicrhau gwelliant parhaus y tu hwnt i oes y rhaglen.</p> <p>Pob agwedd o'r model diwygiedig ar gyfer gweithio o fewn y rhanbarth wedi'i weithredu.</p> <p>Canolfannau rhagoriaeth ITM GwE yn parhau i gynig cefnogaeth ysgol i ysgol i ysgolion partner cynradd ac uwchradd.</p> <p>Parhau i gefnogi ac ymwneud â'r cynlluniau mentora ITM ar gyfer Cyfnod Allweddol 3.</p>	<p>UYHaCh Cyfarwyddwyr Cynorthwyol</p> <p>YH (GJ)</p>	<p>Haf 2017</p> <p>Haf 2017</p>	<p>Grant LIC</p> <p>Grant LIC</p>



GWE

Tuag at Ragoriaeth
Towards Excellence